



Grantiau a chontractau

Canllawiau ar gyfer
mudiadau trydydd sector ac
awdurdodau cyhoeddus

Ysgrifennwyd gan Geldards LLP

Geldards
law firm

Ariannwyd gan



Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Prif swyddfa: WCVA, Tŷ Baltig,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Lein gymorth: 0800 2888 329

Ffacs: 029 2043 1701

Minicom: 0808 180 4080

Ebost: help@wcva.org.uk

Gwefan: www.wcva.org.uk

Elusen gofrestredig 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

SCVS, Voluntary Action Centre, 7 Walter Road,
Swansea SA1 5NF

Ffôn: 01792 544 000

Ffacs: 01792 544 037

E-bost: scvs@scvs.org.uk

Gwefan: www.scvs.org.uk

Elusen gofrestredig 1063242

Cwmni cyfyngedig drwy warant 3346236

ISBN 1 903416 96 5

Tachwedd 2013

Pwrpas

Pwrpas y ddogfen hon yw gosod canllawiau cyffredinol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol o'r trydydd sector gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'n fwriad iddynt fod yn ganllawiau cynhwysfawr i'w defnyddio ar draul cyngor cyfreithiol neu broffesiynol neu i gyfansoddi cyngor cyfreithiol y gellid ei gymhwyso i unrhyw sefyllfa benodol. Mae hyn yn neilltuol bwysig yng nghyd-destun rheolau Caffael Cyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol a dylid gwneud dadansoddiad gofalus bob amser mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Y gynulleidfa

Anelir y ddogfen hon at gomisiynwyr gofal cymdeithasol a thimau caffael awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, darparwyr trydydd sector a sefydliadau seilwaith a gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.

| | |
|--|----|
| Comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gyrff cyhoeddus a chaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol o'r trydydd sector | 3 |
| 1. Terminoleg | 4 |
| 2. Grantiau a chontractau | |
| 3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus | 5 |
| 4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol | 15 |
| 5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol | 20 |
| 6. Ffactorau y dylai eu hystyried wrth benderfynu p'un ai i ddefnyddio grantiau neu gontractau | 26 |
| 7. Elusennau a gwasanaethau cyhoeddus - nodyn atgoffa | 28 |

Comisiynu gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus a chaffael gwasanaethau o'r trydydd sector

Mae'r sector cyhoeddus yn ariannu'r trydydd sector drwy gymysgedd o grantiau a chontractau er y bu newid amlwg o grantiau i gontractau yng nghyllid y trydydd sector, yn rhannol o ganlyniad i gydnabod gan y Llywodraeth o rôl y trydydd sector yn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

'Yn y cyfnod economaidd caled hwn mae llwyddo i gael y gwerth gorau am arian mewn gwariant cyhoeddus yn arbennig o bwysig.'¹

Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ogystal â'r galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus yn creu cyfleoedd a heriau sylweddol i'r trydydd sector. Agwedd llywodraeth y DG at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn yr hinsawdd economaidd bresennol yw y bydd mwy o wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hallgontractio.² O'i gymharu, mae'n ymddangos bod safbwynt Llywodraeth Cymru'n fwy cytbwys:

'Mewn gwirionedd, bydd marchnadoedd gofal cymdeithasol yn parhau i gyfuno cydbwysedd o wasanaethau y gellir eu darparu'n fewnol gan yr awdurdod lleol neu sy'n cael eu sicrhau'n allanol trwy grantiau neu broses gaffael. Dylai fod gan awdurdodau lleol broses glir o wneud penderfyniadau ar gyfer penderfynu pryd y dylid defnyddio gwahanol ddulliau.'³

Mae adran y canllawiau'n edrych ar gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol yn allanol gan fudiadau'r trydydd sector, ariannu cyflenwi o'r fath drwy grantiau neu gontractau, ac mae'n amcanu at glirio'r dryswch rhwng grantiau a chontractau sy'n bodoli o hyd yn ôl pob sôn yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

¹ Nodyn Polisi Caffael-Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cyhoeddus) 2012 - cyngor i gomisiynwyr a chaffaelwyr Nodyn Gwybodaeth 10/12 20 Rhagfyr 2012 tudalen 2 paragraff 8. Er mai cyfyng yw cymhwysiad y Ddeddf i Gymru, mae'r angen i gael y gwerth gorau am arian mewn gwariant cyhoeddus yr un mor berthnasol i Gymru ag ydyw i weddill y DG ac i unman arall yn Ewrop mewn gwirionedd.

² Mae tirwedd cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus yn y wlad hon yn newid yn gyflym. Yn y dyfodol bydd hyd yn oed mwy o'n gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi nid gan y sector cyhoeddus ei hun ond o'r tu allan, p'un ai gan fentrau cydfuddiannol dan arweiniad gweithwyr, mentrau ar y cyd, mentrau cymdeithasol neu elusennol neu ddarparwyr

masnachol confensiynol. Mae'n gyfnod newydd - a gall unrhyw un yn y sector cyhoeddus sy'n meddwl na fydd hyn yn effeithio ar eu sefydliad feddwl eto...Mae pob rhan o'r sector cyhoeddus yn wynebu'r her o gwtogi cyllidebau - ond ar yr un pryd mae'r galw am wasanaethau yn ddi-baid ac mae disgwyliadau'r cyhoedd am wasanaethau yn cynyddu. Mae yna bwysau anferthol i wneud mwy am lai'. *Araith yn lansiad yr Academi Gomisiynu ar 31 Ionawr 2013 gan Weinidog y Cabinet Francis Maude*

³ Llywodraeth Cymru *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Canllawiau Fframwaith Comisiynu ac Arferion Da; Awst 2012 t 15*

1. Terminoleg

1.1 Comisiynu

Ym maes cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol mae'r pwyslais yn gynyddol ar gomisiynu ac, yn arbennig, ar gomisiynu da:

'Mae gan y sector cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru ei hun, gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth, er lles pobl Cymru a dyletswydd i sicrhau bod y sgiliau a'r adnoddau cywir yn bodoli'.⁴

'Yn fwy nag erioed mae'r wlad hon angen comisiynwyr effeithiol iawn sy'n gallu cyflenwi gwell canlyniadau ar gyfer ei dinasyddion a gwell gwerth am arian gyda hyd yn oed llai o adnoddau. Comisiynwyr fydd yn cofleidio dulliau cyflenwi newydd ac arloesol ac yn adeiladu gwasanaethau cyhoeddus sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr yn well.'⁵

Mae Geiriadur Rhydychen yn diffinio'r ferf 'to commission' yn syml fel awdurdodi cynhyrchu rhywbeth, ond pan y'i defnyddir yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol, tueddir i ddefnyddio comisiynu i ddisgrifio'r cylch cyfan o archwilio'r gwasanaethau sydd eu hangen, i ddylunio/pennu'r gwasanaethau sydd i'w caffael, caffael y gwasanaethau hynny yn cynnwys rheoli/monitro darparu'r gwasanaethau hynny.

'Cyfres o weithgareddau yw gwaith comisiynu gofal cymdeithasol lle mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u trefnu i fodloni'r canlyniadau gofal cymdeithasol sydd eu hangen ar eu dinasyddion yn y ffordd orau bosibl. Mae'n cynnwys deall angen y boblogaeth, arferion gorau ac adnoddau lleol a defnyddio'r rhain i gynllunio, gweithredu ac adolygu newidiadau mewn gwasanaethau. Mae'n gofyn am ddull system gyfan ac yn berthnasol i wasanaethau a

ddarperir gan awdurdodau lleol, yn ogystal â gwasanaethau'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.'⁶

1.2 Caffael

Mae Geiriadur Rhydychen yn syml yn diffinio 'to procure' fel cael rhywbeth.

'Caffael gofal cymdeithasol' yw cyfres o weithgareddau sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn sicrhau gwasanaethau gwerth gorau i fodloni'r canlyniadau gofal cymdeithasol sydd eu hangen ar eu dinasyddion. Mae'n un rhan o'r broses gomisiynu ac yn cynnwys nodi gofynion, sicrhau gwasanaethau gan y darparwyr gorau a monitro effeithiolrwydd gwasanaethau.'⁷

Felly, yng nghyd-destun gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae caffael yn un rhan o'r cylch comisiynu y gellir ei gyflawni mewn un o ddwy ffordd:

- yn fewnol gan y corff cyhoeddus (naill ai ganddo ef ei hun neu mewn cydweithrediad â chyrrff cyhoeddus eraill); neu
- yn allanol gan sefydliadau preifat neu Drydydd Sector.

'Mae caffael yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth, polisi ac egwyddorion ar lefel yr UE a'r DG a chan reoliadau'r cyrrff comisiynu eu hunain.'⁸

Mae adran hon y canllawiau yn edrych ar gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol yn allanol gan fudiadau'r trydydd sector. Mae'n rhaid i gaffael yn y sector cyhoeddus bob amser gadw at reolau'r UE ar gaffael cyhoeddus a chymorth Gwladwriaethol, polisi'r llywodraeth, cyfraith gyhoeddus a gweinyddol a bod yn seiliedig ar werth am arian.

⁴ Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru - Datganiad Polisi Caffael Cymru, Atodiad 1 tudalen 2 Jane Hutt AC, 6 Rhagfyr 2012

⁵ Araith yn lansiad yr Academi Gomisiynu ar 31 Ionawr 2013 gan Weinidog y Cabinet Francis Maude

⁶ Llywodraeth Cymru Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Canllawiau Fframwaith Comisiynu ac Arferion Da t 27

⁷ Llywodraeth Cymru Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Canllawiau Fframwaith Comisiynu ac Arferion Da t 27

⁸ Cyfraith ac Egwyddorion Caffael (Gwasanaethau Cyhoeddus): www.ncvo-vol.org.uk/commissioning/procurement/legal_framework

2. Grantiau a chontractau

Mae gan y trydydd sector hanes maith a llewyrchus o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

'Mae'r trydydd sector ers peth amser wedi chwarae rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, adnabod anghenion, ymgyrchu dros newid a datblygu atebion deinamig ac arloesol'.⁹

'Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae mudiadau'r trydydd sector wedi cyfrannu'n gynyddol at gyflenwi ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Mae mudiadau'r trydydd sector yn gweithio mewn nifer o feysydd, o ofal iechyd a chymdeithasol, eiriolaeth ac ymgyrchu, addysg a dysgu, tai, cyflogaeth a lles, i gefnogaeth a diogelwch yn y gymuned'.¹⁰

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn cydnabod rôl allweddol y trydydd sector wrth gynnal cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a chyfrifol, yn cynnwys eu rôl fel darparwyr gwasanaethau i'r sector cyhoeddus'.¹¹

2.1 Dewisiadau ariannu

Y dewisiadau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i ariannu cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol gan fudiadau'r trydydd sector yw:

- (a) grantiau;
- (b) contractau; neu
- (c) gyfuniad o grantiau a chontractau.

2.2 Grantiau a chontractau: beth yw'r gwahaniaeth?

(a) Grantiau

'Mae grantiau'n bwysig iawn yng Nghymru; mae arian grant penodol yn cael ei ddefnyddio'n helaethach yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

Mae Llywodraeth Cymru ac chyllidwyr statudol eraill yn defnyddio grantiau fel ffordd rymus o gyflawni eu hamcanion polisi. Mae grantiau'n galluogi llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau penodol i bobl Cymru. Mae grantiau'n cychwyn ac yn cynnal gweithgarwch economaidd a chymdeithasol sylweddol a hefyd mae cryn amser yn cael ei fuddsoddi ynddynt yn ogystal ag arian y trethdalwr'.¹²

Felly, mae grantiau'n bwysig, ond beth ydynt?

Yn ôl Llywodraeth Cymru:

'Mathau o gymorth ariannol yw grantiau, sy'n annog sefydliadau i

gynnal gweithgareddau gofal cymdeithasol na fyddai'n cael eu cyflawni fel arfer gan y sector statudol neu'n cael eu trefnu drwy'r broses rheoli achos/gofal'.¹³; a

Mae grantiau'n 'arian y gellid ei ddarparu gan [Llywodraeth Cymru] a chyrrff cyhoeddus eraill fel dull o gynnal cymorth ariannol i sefydliadau'r trydydd sector i'w galluogi i ymgyrdd â gweithgareddau y mae [Llywodraeth Cymru] a chyrrff cyhoeddus eraill yn dymuno eu cefnogi. Gellir anelu grantiau at gynorthwyo gyda chostau craidd cynnal a datblygu sefydliad neu'n fwy penodol i'w helpu i gynnal prosiect neu wasanaethau penodol. Nid yw rhoddwr y grant yn contractio am wasanaeth sy'n rhan o'i fusnes ei hun'.¹⁴

⁹ 'Y Trydydd Dimensiwn' Cynllun Strategol i'r Sector Gwirfoddol Ionawr 2008, tudalen 34, paragraff 4.47

¹⁰ Gwella cysylltiadau ariannol yn y trydydd sector: Canllawiau i gyllidwyr a phrynwyr Mai 2006, tudalen 13 adran 2.1

¹¹ Caffael a't trydydd sector: Canllawiau i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru, tudalen 4 adran 2

¹² <http://wales.gov.uk/funding/fundgrantareas/?skip=1&lang=cy>

¹³ Llywodraeth Cymru Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, Canllawiau Fframwaith Comisiynu ac Arferion Da: Awst 2012

¹⁴ Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector Ionawr 2009, tudalen 6

2. Grantiau a chontractau (parhad)

Yn ôl Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG), 'Mae grant yn ffordd ddefnyddiol iawn i gorff cyhoeddus ariannu mudiad trydydd sector i gynnal gweithgaredd sydd yn bodloni un neu ragor o amcanion y corff cyhoeddus. Er enghraifft, gall cyngor sy'n pryderu am ddiffyg lles un o'i gymunedau roi grant i fudiad trydydd sector sydd ag ymrwymiad i wella lles y gymuned honno.'¹⁵

Yn ôl Trysorlys EM, 'Mae grant yn drosglwyddiad ariannol a ddefnyddir i ariannu gweithgaredd oherwydd bod y gweithgaredd hwnnw yn bodloni amcanion y cyllidwr.'¹⁶

Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, mae grantiau'n gyfraniadau ariannol uniongyrchol a roddir fel rhoddion i drydydd partïon sy'n ymwneud â gweithgareddau neu brosiectau penodol y mae'r UE yn dymuno eu cefnogi, ac maent yn seiliedig ar ad-dalu costau cymwys.¹⁷

O safbwynt cyfreithiol, yn ei ffurf fwyaf syml ac elfennol, mae grant yn daliad ariannol a roddir gan gorff ariannu i'r derbynnydd i gefnogi'r derbynnydd naill ai'n gyffredinol neu'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol a gynhelir gan y derbynnydd. Nid yw'r derbynnydd wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol o gwbl i wneud nac i gyflenwi dim. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod y derbynnydd yn rhydd i wneud beth a ddymuna gydag unrhyw arian grant a dderbynnir: ni all derbynnydd unrhyw grant ond defnyddio arian y grant a dderbynnir at y pwrpas penodol y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Nid yw'r corff ariannu'n derbyn dim yn gyfnewid ac nid yw wedi ei ymrwymo'n gyfreithiol i ddarparu'r arian grant.

(b) Contractau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng grantiau a chaffael yn hytrach na rhwng grantiau a chontractau: 'Golyga caffael brynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti o dan delerau cytundebol sy'n gyfreithiol rwymol, pan fo'r holl amodau sydd eu hangen i ffurfio cytundeb cyfreithiol rwymol wedi eu bodloni. Mae contractau o'r fath o fudd i'r awdurdod cytundebu ac maent yn angenrheidiol i gynnal y busnes neu ei ddyletswydd statudol.'¹⁸

Mae gwahaniaethu o'r fath hefyd yn ymddangos yng nghanllawiau Trysorlys EM: 'Golyga caffael brynu nwyddau a gwasanaethau yn unol â pholisi'r Llywodraeth ynglŷn â gwerth am arian, a hynny'n cael ei gyflawni drwy gystadleuaeth.'¹⁹

Fel y trafodwyd ym mharagraffau 1.2 a 2.1 uchod, caffael yw'r gweithgaredd o sicrhau cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol y gellir, yn achos cyflenwi gan fudiadau'r trydydd sector, eu hariannu drwy grant neu gontract.

O safbwynt cyfreithiol, mae contract yn drefniant cyfreithiol rwymol sy'n sicrhau bod darparwr y gwasanaeth yn derbyn taliad gan y corff ariannu am gyflenwi'r gwasanaethau.

Yng nghyd-destun contractau gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae hyn yn y bôn yn golygu trefniadau dwyochrog sy'n sicrhau bod corff cyhoeddus yn gwneud taliadau i fudiad am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol penodol. Mae'r ddau barti yn elwa mewn rhyw fodd o'r trefniant: mae'r corff cyhoeddus yn cael y gwasanaethau y mae eu heisiau, ac mae'r mudiad yn cael tâl am ddarparu'r gwasanaethau hynny.

¹⁵ www.nao.org.uk/sectors/third_sector/successful_commissioning/successful_commissioning/sourcing_providers/when_can_i_use_grant.aspx

¹⁶ Gwella cysylltiadau ariannol gyda'r trydydd sector: Canllawiau i gyllidwyr a phrynwyr Mai 2006, tudalen 15 paragraff 2.11

¹⁷ <http://ec.europa.eu/europeaid/work/funding>

¹⁸ Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector Ionawr 2009, tudalen 6

¹⁹ Gwella cysylltiadau ariannol gyda'r trydydd sector: Canllawiau i gyllidwyr a phrynwyr Mai 2006, tudalen 15 paragraff 2.11

2. Grantiau a chontractau (parhad)

2.3 Grantiau a chontractau: pam y dryswch?

Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, 'Mae'r gwahaniaeth rhwng contract a grant cyhoeddus yn eglur:

- yn achos contract, mae'r awdurdod contractio yn derbyn y cynnyrch neu'r gwasanaeth sydd ei angen arno yn gyfnewid am dâl.
- yn achos grant, mae'n rhoi cyfraniad naill ai tuag at brosiect a gynhelir gan sefydliad allanol neu'n uniongyrchol i'r sefydliad hwnnw oherwydd bod ei weithgareddau yn cyfrannu tuag at amcanion polisi'r UE.²⁰

Er gwaethaf safbwynt y Comisiwn Ewropeaidd a'r dogfennau canllaw amrywiol a gyhoeddwyd am grantiau a chontractau, mae dryswch yn parhau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Felly pam fod y fath ddryswch yn bodoli?

Efallai mai'r prif reswm am y dryswch yw mai ychydig iawn o grantiau, yn ymarferol, sy'n grantiau gwirioneddol yn yr ystyr gyfreithiol fanwl. Mae'r rhan fwyaf o grantiau yn ddarostyngedig i delerau ac amodau sy'n manylu ar sut y gellir defnyddio arian y grant ac sy'n caniatáu i arian grant gael ei ad-dalu mewn amgylchiadau penodol. Bwriedir i'r telerau ac amodau hyn fod yn gyfreithiol rwymol.

Felly, nid yw hi bob amser yn eglur ar yr olwg gyntaf a yw'r mecanwaith ariannu a ddewisir mewn gwirionedd yn grant neu'n gontract. O safbwynt cyfreithiol, sylwedd yn hytrach na ffurf dogfen, neu'r enw a roddir iddi, sy'n bwysig wrth benderfynu pa fath o drefniant ydyw. Felly, er mwyn penderfynu a yw trefniant penodol yn grant neu'n gontract, bydd angen gwneud dadansoddiad i weld a yw gofynion contract

cyfreithiol rwymol yn cael eu bodloni. Er mwyn gallu llunio contract cyfreithiol rwymol dan ddeddfau Cymru a Lloegr, mae'n rhaid bodloni 5 gofyniad:

1. mae'n rhaid i un parti roi cynnig
2. a dderbynir yn ddiamwys gan y parti arall
3. sy'n eglur o ran telerau'r hyn sydd i'w ddarparu neu i'w wneud
4. bydd cydnabyddiaeth (arian neu werth ariannol) yn symud o un parti i'r llall a
5. bydd y partion yn bwriadu cael eu hymrwymo'n gyfreithiol gan y telerau y cytunwyd arnynt.

2.4 Pam ei bod yn bwysig deall y gwahaniaeth rhwng grantiau a chontractau?

Mae'n bwysig deall ai arian grant neu gontract ydyw oherwydd bod gwahaniaethau pwysig rhwng y ddau:

- (a) mae'r rheolau a'r egwyddorion cyfreithiol sy'n gymwys i grantiau gwir yn wahanol i'r rhai sy'n gymwys i gontractau.
 - (i) mae grantiau gwir yn ddarostyngedig i gyfraith ymddiriedolaeth: mae derbynydd grant yn dal y swm arian mewn ymddiriedolaeth, i'w ddefnyddio at y pwrpas penodol y rhoddwyd yr arian ar ei gyfer. Gyda grant, nid yw'n orfodol i'r derbynydd gyflenwi unrhyw nwyddau neu wasanaethau er y gall y corff ariannu adfachu grant na wariwyd neu a gamddefnyddiwyd oherwydd mae'n rhaid i arian grant bob amser gael ei ddefnyddio at y pwrpas a bennwyd. Yn achos grant

²⁰ <http://ec.europa.eu/europeaid/work/funding>

2. Grantiau a chontractau (parhad)

gwir, nid yw'r corff ariannu'n derbyn dim yn gyfnewid ac, oni bai mai gweithred yw trefniant y grant, nid oes rheidrydd arno i dalu'r grant;

- (ii) mae contractau'n ddarostyngedig i gyfraith contractau: dan gontract mae yna reidrydd cyfreithiol i'r corff cyhoeddus dalu'r arian sy'n ddyledus dan y contract, ac mae yna reidrydd cyfreithiol ar y Trydydd sector i ddarparu'r gwasanaethau, testun y contract. Petai'r naill barti neu'r llall yn methu â chadw at eu rhan hwy o'r fargen, gall y parti arall hawlio am dorri contract a bydd hawl ganddo i adennill iawndal am unrhyw golledion, gall iawndal o'r fath fod yn fwy na swm unrhyw arian a dderbyniodd y mudiad trydydd sector gan y corff cyhoeddus.

- (b) mae sefyllfa dreth grantiau a chontractau yn wahanol iawn;
- (c) gall gwahanol fframweithiau deddfwriaethol fod yn gymwys: mae'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gymwys i gontractau gwasanaethau cyhoeddus ond nid i grantiau: 'Mae gan Aelod-Wladwriaethau a/neu awdurdodau cyhoeddus ryddid i ddarparu [gwasanaethau cyhoeddus] eu hunain neu i drefnu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd nad yw'n golygu diwedd contractau cyhoeddus, er enghraifft, yn syml drwy ariannu gwasanaethau o'r fath...'²¹; gellir cymhwyso rheolau cymorth Gwladwriaethol i grantiau ond cyfyng yw eu cymhwysiad i gontractau gwasanaethau: pan fo contractau gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu tendro'n gystadleuol (p'un ai'n unol a'r Rheolau Caffael Cyhoeddus neu beidio) a bod corff cyhoeddus yn talu pris y farchnad gystadleuol am y gwasanaethau dan sylw, ni fydd yna elfen o gymhorthdal na chymorth Gwladwriaethol.

²¹ Cynnig am Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gaffael cyhoeddus 16725/1/12 REV1 30 Tachwedd 2012, croniciad 11

2. Grantiau a chontractau (parhad)

Adnabod y gwahaniaeth rhwng grantiau a chontractau: pethau i chwilio amdanynt

Wrth benderfynu a yw trefniant yn grant gwir, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

| Grantiau: | Contractau: |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Bydd y trefniant yn cynnwys taliad ariannol i gefnogi'r derbynydd naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â gweithgareddau penodol a gynhelir gan y derbynydd. | <ul style="list-style-type: none">• Bydd y trefniant yn creu contract cyfreithiol rwymol (gweler paragraff 2.3 uchod). |
| <ul style="list-style-type: none">• Ni fydd y derbynydd wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol o gwbl i gyflenwi unrhyw wasanaethau. | <ul style="list-style-type: none">• Bydd y derbynydd wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol i gyflenwi'r gwasanaethau a bennwyd. |
| <ul style="list-style-type: none">• Ni fydd y corff ariannu wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol i roi arian y grant i'r derbynydd. | <ul style="list-style-type: none">• Bydd y corff ariannu wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol i dalu i'r derbynydd am ddarparu'r gwasanaethau. |
| <ul style="list-style-type: none">• Ni chaniateir i'r derbynydd ddefnyddio arian y grant ond at y pwrpas penodol y rhoddwyd y grant ar ei gyfer yn unig. Yn nodweddiadol bydd gan y corff ariannu hawl i adfachu'r arian os na chaiff ei ddefnyddio neu os caiff ei gamddefnyddio. | |

Sylwer: nid yw'r ffaith bod trefniant yn cael ei alw'n 'grant' neu'n 'gytundeb grant' yn golygu ei fod yn grant gwir yn yr ystyr gyfreithiol gywir. Bydd llawer o drefniadau a elwir yn 'grantiau' neu'n 'gytundebau grant' mewn gwirionedd yn bodloni gofynion contract.

3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus

3.1 Beth yw'r Rheolau Caffael Cyhoeddus?

Cynnwys y Rheolau Caffael Cyhoeddus yw Cyfarwydddebau'r UE, Rheoliadau'r DG sy'n rhoi'r Cyfarwydddebau hyn ar waith a chyfraith achosion Llys Ewrop a'r DG. Y Gyfarwydddeb berthnasol i'r sector cyhoeddus yw Cyfarwydddeb 2004/18/EC (y 'Gyfarwydddeb') a'r Rheoliadau perthnasol yw'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (y 'Rheoliadau').

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru, fel cyrff cyhoeddus yng ngweddill yr UE, yn ddarostyngedig i Reolau Caffael Cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn, mae cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i egwyddorion y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (y 'Cytuniad'), ac, yn arbennig symud nwyddau'n rhyd, rhyddid i sefydlu a'r rhyddid i ddarparu gwasanaethau yn ogystal â'r egwyddorion cyffredinol sy'n deillio ohonynt, yn benodol, egwyddorion tryloywder, peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, cymesuredd a chydgydnabyddiaeth ('egwyddorion cyffredinol y Cytuniad').

3.2 Pryd mae'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gymwys?

Yn syml, bydd y Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gymwys pryd bynnag fo corff cyhoeddus yn dymuno rhoi contract cyhoeddus pan fo'i werth yn uwch na'r trothwy gwerth perthnasol ar gyfer y math hwnnw o gontract²² ac na chaiff ei wahardd yn ffurfiol o weithrediad y Rheolau Caffael Cyhoeddus.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig deall nad pwrpas y Rheolau Caffael Cyhoeddus yw 'cynnwys pob math o alldaliadau arian cyhoeddus, dim ond y rhai hynny a anelir at

brynu gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau am gydnabyddiaeth drwy gyfrwng contract cyhoeddus yn unig. Dylid deall y syniad o brynu yn yr ystyr eang o ennill y buddion o'r gwaith, y cyflenwadau neu'r gwasanaethau dan sylw, heb fod angen trosglwyddo perchnogaeth o reidrwydd i'r awdurdodau contractio. Hefyd, nid yw ariannu gweithgaredd, yn arbennig drwy grantiau, gaiff ei gysylltu'n rheolaidd â'r ymrwymiad i ad-dalu'r symiau a dderbyniwyd os na chânt eu defnyddio at y dibenion cywir, fel rheol yn ddarostyngedig i reolau caffael cyhoeddus.²³

Contractau gwaith cyhoeddus, cyflenwad cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yw contractau cyhoeddus. Diffinnir contractau gwasanaethau cyhoeddus yn y Rheoliadau fel contractau 'ysgrifenedig am gydnabyddiaeth (beth bynnag fo natur y gydnabyddiaeth) pan fo awdurdod contractio yn ymgysylltu â pherson i ddarparu gwasanaethau'²⁴ ond nid yw'n cynnwys contract gwaith cyhoeddus neu gyflenwi cyhoeddus.

Fel y gwelir o'r diffiniad hwn, y gofyniad cyntaf yw i'r contract fod yn un ysgrifenedig. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r contract fod ar ffurf contract neu gytundeb wedi'i lofnodi; mae rhyw fath o dystiolaeth ysgrifenedig o'r contract yn ddigonol, er enghraifft, cyfnewid e-bostion neu lythyrau. Mae cyrff cyhoeddus yn annhebygol iawn o gytuno i gontractau llafar nad oes rhyw fath o dystiolaeth ysgrifenedig ohonynt, oherwydd gofynion archwilio'n un peth. Yr ail ofyniad yw am gydnabyddiaeth. Gall cydnabyddiaeth fod yn arian ond nid oes raid iddo fod yn arian. Y trydydd gofyniad yw darparu gwasanaethau.

²² Y trothwy gwerth presennol ar gyfer gwasanaethau yw £113,057 pan fo'r corff cyhoeddus yn rhan o lywodraeth ganolog a £173,934 i bob corff cyhoeddus arall

²³ Cynnig am Gyfarwydddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gaffael cyhoeddus 16725/1/12 REV1 30 Tachwedd 2012, cronicliad 11

²⁴ Rheoliad 2(1) y Rheoliadau

3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus (parhad)

Wrth ddelio â chontractau am wasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig nodi bod y Rheolau Caffael Cyhoeddus presennol yn gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau hynny a elwir yn wasanaethau Rhan A sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau a'r Gyfarwyddeb yn eu cyfanrwydd, a'r rhai hynny a elwir yn wasanaethau Rhan B sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau penodol cyfyngedig y Rheoliadau a'r Gyfarwyddeb yn unig²⁵. Mae hyn yn golygu nad oes ymrwymiad dan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau i dendro contractau yn gystadleuol am wasanaethau Rhan B drwy Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (CSUE) er, pan fo gan wasanaethau o'r fath fudd trawsffiniol, bydd cydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol y Cytuniad yn gofyn am ryw ddull o hysbysebu a thendro cystadleuol.

Mae'r gwahaniaethu presennol hwn rhwng Gwasanaethau Rhan A a Rhan B yn eithriadol bwysig yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol gan y trydydd sector. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wasanaethau Rhan B ac, yn unol â hynny, ni fydd contractau am wasanaethau o'r fath yn ddarostyngedig i gymhwyso'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn eu cyfanrwydd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r contractau hyn yn debygol o fod yn dipyn is na'r trothwy gwerth ar gyfer gwasanaethau ac yn annhebygol o fod ag unrhyw fudd trawsffiniol. Effaith ymarferol hyn yw na fydd y rhan fwyaf o'r contractau gwasanaeth cyflenwi gofal cymdeithasol a roir i fudiadau'r trydydd sector yn ddarostyngedig i'r Rheolau Caffael Cyhoeddus nac i egwyddorion cyffredinol y Cytuniad. Wrth gwrs, gall y sefyllfa hon newid os gweithredir ar rai o bryderon y trydydd sector:

'Mae pawb yn gwybod bod pwysau ar y sector cyhoeddus i fod yn fwy effeithlon. Yn anochel, maent yn edrych ar ffyrdd i'w caffael greu arbedion effeithlonrwydd drwy:

- Creu proses gaffael fwy effeithlon, er enghraifft, drwy lunio llai o gontractau a chontractau mwy...'²⁶

Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio yn y cyd-destun hwn y gellir cael gofyniad am ryw fath o dendro cystadleuol am gontractau o'r fath oherwydd ymrwymiad y cyrff cyhoeddus i sicrhau'r gwerth gorau ac oherwydd eu rheoliadau ariannol mewnlol a'u rheolau sefydlog eu hunain, er fel rheol mae prosesau tendro o'r fath (pan fo'u hangen) yn llawer symlach a llai cymhleth nag unrhyw brosesau tendro cystadleuol o dan y Rheolau Caffael Cyhoeddus.

3.3 Beth mae cymhwyso'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn ei olygu'n ymarferol?

Os bydd y Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gymwys, mae'n rhaid tendro'r contract cyhoeddus yn gystadleuol drwy'r CSUE gan ddefnyddio naill ai'r gweithdrefnau agored neu gyfyngedig neu, mewn rhai achosion prin, y gweithdrefnau trafodaeth neu ddeialog cystadleuol. I grynhoi, pan fo'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gymwys, maent yn creu fframwaith o reolau, gweithdrefnau ac amserlenni y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gadw atynt wrth osod contractau cyhoeddus. Felly mae'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn gosod y rheolau gweithdrefnol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn mewn perthynas â sut i brynu gwaith, nwyddau a gwasanaethau ond nid beth i'w brynu: y cyrff cyhoeddus sydd i benderfynu beth i'w brynu ac i ddiffinio nodweddion y gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion orau, ac i osod yr amodau sydd fwyaf priodol ar gyfer yr amcanion polisi a ddymunir (cyn belled â'u bônt yn dryloyw ac nad ydynt yn gwahaniaethu).

²⁵ O dan y Gyfarwyddeb, y darpariaethau hynny sy'n gysylltiedig â manylebau (Erthygl 23) a hysbysiadau technegol (Erthygl 35 (4)) yn unig sy'n gymwys i wasanaethau Rhan B. O dan y Rheoliadau, mae Rheoliad 4(3) yn gofyn, yn ychwanegol, am i gyrff cyhoeddus (a) drin gweithredwyr economaidd yn gyfartal ac mewn modd nad yw'n gwahaniaethu a (b) i weithredu mewn ffordd dryloyw.

Yn ymarferol, mae'r gofynion hyn yn debyg iawn i'r gofynion hynny a osodir ar gyrff cyhoeddus dan egwyddorion cyfraith weinyddol, er bod yr egwyddorion eu hunain a'r profion yn wahanol.

²⁶ www.ncvo-vol.org.uk/commissioning/procurement/legal_framework: 'Effeithlonrwydd'

3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus (parhad)

3.4 Beth yw canlyniadau torri'r Rheolau Caffael Cyhoeddus?

Mae'r ymrwymïadau a geir yn y Rheolau Caffael Cyhoeddus yn ddyletswyddau statudol sy'n ddyledus i ddarparwyr gan gyrff cyhoeddus. Os na chedwir at y dyletswyddau, gall darparwyr tramgwyddedig ddwyn hawliad yn yr Uchel Lys yn erbyn y corff cyhoeddus. Gall darparwyr tramgwyddedig hefyd gwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gallu ymchwilio i'r gwyn ac, os bydd angen, ddwyn achos yn erbyn yr Aelod-Wladwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, adnoddau cyfyngedig yn unig sydd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac felly mae'n debygol o ganolbwyntio ar yr achosion sydd â'r proffil uchaf.

(a) Y canlyniadau i gyrff cyhoeddus

Os bydd achos yn cael ei ddwyn mewn perthynas â phroses dendro cyn i gontract gael ei gwblhau, bydd y broses o wobrwyo'r contract yn cael ei ohirio'n awtomatig fel cam dros dro. Bydd y gohiriad hwnnw'n dal yn weithredol nes bod llys yn ei derfynu neu fod yr achos ei hun yn dod i ben. Os bydd yr heriwr yn llwyddiannus yn y diwedd, mae'r dulliau unioni posibl yn erbyn y corff cyhoeddus yn cynnwys neilltuo penderfyniadau anghyfreithlon (e.e. gwahardd yr heriwr o'r broses dendro), neilltuo penderfyniad i roi contract a/neu ddyfarnu iawndal i'r heriwr.

Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall y llys hyd yn oed neilltuo contract sydd eisoes wedi'i gwblhau. Er enghraifft, pan ddylai contract sydd wedi'i gwblhau fod wedi cael ei dendro'n gystadleuol o dan y Rheolau Caffael Cyhoeddus ond ni ddigwyddodd hynny. Yn ychwanegol at hyn, neu'n hytrach na neilltuo contract sydd wedi'i gwblhau, gellir cosbi'r corff cyhoeddus yn ariannol. Penderfynir ar y cosbau fesul achos, ond mae'n rhaid iddynt fod yn effeithiol, yn gymesur ac anghymhellgar. Yn hytrach na neilltuo gellir

byrhau contract pan fo'r llys yn ystyried bod hyn yn briodol.

Yn ychwanegol at y canlyniadau ffurfiol a ddisgrifir uchod, mae yna nifer o ganlyniadau posibl eraill i gyrff cyhoeddus am dorri Rheolau Caffael Cyhoeddus, megis cyhoeddusrwydd gwael a gwastraff amser a chostau.

(b) Y canlyniadau i fudiadau'r trydydd sector

Y canlyniad posibl mwyaf difrifol i fudiad yn y trydydd sector sy'n derbyn contract yn dilyn torri'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yw neilltuo'r contract hwnnw. Canlyniad arall yw gwastraff amser a chostau cymryd rhan mewn proses dendro sy'n gorfod cael ei derfynu neu ei hailgychwyn yn dilyn torri rheolau. Efallai y gellir adennill colledion a chostau penodol gan y corff cyhoeddus, ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r broses dendro, y contract a'r torri rheolau a ddigwyddodd.

3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus (parhad)

3.5 Newidiadau i'r Rheolau Caffael Cyhoeddus

Ym mis Rhagfyr 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion i foderneiddio'r Rheolau Caffael Cyhoeddus. 'Mae gan gaffael cyhoeddus rôl allweddol yn strategaeth Ewrop 2020 fel un o'r offerynnau seiliedig ar y farchnad fydd yn cael eu defnyddio i greu twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol wrth sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o arian cyhoeddus. At y pwrpas hwnnw, mae'n rhaid...adolygu a moderneiddio'r rheolau caffael cyhoeddus presennol er mwyn gwella effeithlonrwydd gwariant cyhoeddus, gan hwyluso cyfranogiad mentrau bychain a chanolig yn enwedig mewn caffael cyhoeddus ac i alluogi caffaelwyr i ddefnyddio caffael cyhoeddus yn well i gefnogi amcanion cymdeithasol cyffredinol.'²⁷

Er nad oes cytundeb terfynol wedi bod ar destun terfynol y gyfarwyddeb newydd fydd yn disodli'r Gyfarwyddeb, nid yw'r gyfarwyddeb newydd a gynigir bellach yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau Rhan A a Rhan B. Yn hytrach na hynny, bydd cyfundrefn newydd ar wahân ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei chyflwyno fydd â throthwy gwerth uwch (EUR 750,000 o'i gymharu ag EUR 130,000 (trothwy gwasanaethau llywodraeth ganolog) a 200,000 (trothwy gwasanaethau na ddarperir gan lywodraeth ganolog)) gydag ymrwymadau gweithdrefnol cymwys cyfyngedig yn unig fydd ond yn cynnwys ymrwymadau i barchu egwyddorion cyffredinol y Cytuniad o ran tryloywder a thriniaeth gyfartal.

'Oherwydd eu natur, mae rhai categorïau gwasanaeth yn parhau i fod â dimensiwn trawsffiniol, yn benodol, y gwasanaethau hynny sy'n hysbys fel gwasanaethau i'r unigolyn, megis rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysgol. Mae gan y gwasanaethau hyn gyd-

destun neilltuol sy'n amrywio ymhlith yr Aelod-Wladwriaethau o ganlyniad i draddodiadau diwylliannol gwahanol...Oherwydd pwysigrwydd y cyd-destun diwylliannol a sensitifrwydd y gwasanaethau hyn, dylid rhoi disgrisiwn eang i'r Aelod-Wladwriaethau drefnu dewis darparwyr y gwasanaethau yn y modd y maent yn ystyried sydd fwyaf priodol. Mae rheolau'r gyfarwyddeb hon yn ystyried yr hanfod hwnnw, gan osod gorfodaeth i gadw at egwyddorion sylfaenol tryloywder a thriniaeth gyfartal yn unig a sicrhau bod awdurdodau contractio yn gallu cymhwyso meini prawf ansawdd penodol wrth ddewis darparwyr gwasanaethau...'²⁸

Bydd gwasanaeth gofal cymdeithasol yn wasanaethau cymdeithasol at bwrpas y gyfarwyddeb newydd.] Mae hi hefyd yn debygol y bydd y rhan fwyaf, os nad yr holl gontractau gwasanaethau cymdeithasol sy'n debygol o gael eu rhoi i fudiadau'r trydydd sector yn sylweddol is na'r trothwy o EUR 750,000 a gynigir. Ni fydd y contractau hynny fydd o dan y trothwy yn ddarostyngedig i'r rheolau caffael cyhoeddus newydd, ac mae'n anhebygol y bydd ganddynt fudd trawsffiniol fyddai'n ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol y Cytuniad: 'Fel rheol ni fydd gwasanaethau i'r unigolyn gyda gwerth sy'n is na'r trothwy hwn o ddiddordeb i ddarparwyr o Aelod-Wladwriaethau eraill, oni bai y ceir arwyddion cadarn i'r gwrthwyneb, megis arian yr Undeb ar gyfer prosiectau trawsffiniol.'²⁹

Hyd yn oed yn achos contractau fydd yn uwch na'r trothwy dan y gyfarwyddeb newydd a gynigir, wrth roi contractau am wasanaethau cymdeithasol, er y gofyniad i naill ai gyhoeddi hysbysiad contract neu raghysbysiad gwybodaeth (PIN), bydd gan gyrff cyhoeddus ryddid i benderfynu pa broses gaffael i'w defnyddio, yn cynnwys trafodaethau, cyn belled â'u bôn yn gweithredu'n deg a thryloyw.

²⁷ Cynnig am Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gaffael cyhoeddus: 16725/1/12 REV1 30 Tachwedd 2012, cronicliad 2

²⁸ Cynnig am Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gaffael cyhoeddus: 16725/1/12 REV1 30 Tachwedd 2012, cronicliad 11

²⁹ Cynnig am Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gaffael cyhoeddus: 16725/1/12 REV1 30 Tachwedd 2012, cronicliad 11

3. Y Rheolau Caffael Cyhoeddus (parhad)

Felly, yn ymarferol bydd sefyllfa'r rhan fwyaf o gontractau gwasanaethau cymdeithasol a roddir i fudiadau'r trydydd sector o dan y cynigion newydd yr un fath â'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd bydd yr ymrwymiad i gael y gwerth gorau a'r angen i gydymffurfio â rheoliadau ariannol mewnol a rheolau sefydlog yn golygu y bydd angen rhyw fath o dendro cystadleuol ar gyfer pob contract ac eithrio'r rhai lleiaf, ond nid drwy'r CSUE.

Ni fydd y gyfarwyddeb newydd a gynigir, fel y Gyfarwyddeb bresennol, yn rhwystro cyrff cyhoeddus rhag ariannu darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy grantiau.³⁰

³⁰ Gweler troednodyn 23 uchod

4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol

4.1 Trosolwg

Mae'r rheolau ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol yn rhai cyfeillgar tuag at daliadau am wasanaethau gofal cymdeithasol. Er y dylid ymgynghori bob amser â'r rheolau ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol, mae'n hynod anhebygol na fydd taliadau am wasanaethau gofal cymdeithasol naill ai'n ffurfio cymorth Gwladwriaethol o gwbl neu'n cael eu hesemptio rhag hysbysu. Ceir mwy o wybodaeth am yr esemptiadau allweddol ym mharagraff 4.2 isod.

Hyd yn oed os nad oes yr un o'r esemptiadau y cyfeirir atynt yn y paragraff 4.2 isod yn gymwys, mae yna nifer o resymau eraill pam na fyddai contractau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol ynghlwm â chymorth Gwladwriaethol o gwbl, neu'n cael eu hesemptio o'r gofyniad hysbysu. Petai ystyried y materion ychwanegol hyn yn angenrheidiol, mae paragraff 4.3 isod yn egluro beth yw 'cymorth Gwladwriaethol'; mae paragraff 4.4 isod yn nodi'r prif seiliau eraill y gellid eu defnyddio o bosibl i ddadlau nad yw cymorth Gwladwriaethol naill ai'n bresennol neu nad oes angen hysbysu yng nghyd-destun gwasanaethau gofal cymdeithasol; mae paragraff 4.5 isod yn crynhoi'r ffyrdd y gallai'r rheolau ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol effeithio ar fudiadau'r trydydd sector, ac mae paragraff 4.6 isod, er mwyn cyflawnder, yn crynhoi beth fyddai canlyniadau cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon.

Ni fwriedir i'r ddogfen hon ffurfio cyngor cyfreithiol sy'n gymwys i unrhyw sefyllfa benodol, ac os bydd trafodyn efallai'n ymwneud â chymorth Gwladwriaethol, dylid gwneud dadansoddiad gofalus bob amser, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a chyfathrebu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn y pen draw, os oes yna gymorth Gwladwriaethol ac nad yw'r un o'r

esemptiadau'n gymwys, mae'n rhaid hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd ymlaen llaw. Yn dilyn hyn bydd yna gyfnod segur tra bod y Comisiwn yn penderfynu naill ai i ganiatáu'r cymorth neu beidio, ac ni ellir rhoi'r cymorth nes bod y Comisiwn wedi penderfynu ei ganiatáu neu beidio.

4.2 Yr esemptiadau allweddol

Yn gyffredinol bydd gwsanaethau gofal cymdeithasol yn unol â chontract sector cyhoeddus yn cael eu hystyried fel 'gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol' (neu 'SGEI'). Mae SGEI yn weithgareddau economaidd na fyddai grymoedd y farchnad yn unig yn eu creu, neu o leiaf nid fel gwasanaeth fforddiadwy fyddai ar gael i bawb yn ddiwahân. Felly mae SGEI yn cael eu cynnal er budd y cyhoedd dan amodau a osodir gan y Wladwriaeth a gellir gosod yr amodau hynny mewn deddfwriaeth neu mewn contract.

Ceir esemptiadau³¹ am gymorth tuag at SGEI yn y meysydd canlynol, sy'n golygu bod unrhyw gymorth Gwladwriaethol dilynol yn cael ei ystyried yn gydnaws â'r farchnad fewnol ac felly'n esempt rhag y gofyniad i hysbysu:

- taliad nad yw'n fwy na EUR 15 miliwn (tua £12.9 miliwn ym Mawrth 2013) y flwyddyn i bob derbynydd (ac eithrio am wasanaethau ym maes trafndiaeth a seilwaith trafndiaeth);
- taliad am wasanaethau SGEI gan ysbytai sy'n darparu gofal meddygol;
- taliad am SGEI sy'n bodloni anghenion cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd a gofal hirdymor, neu ofal a chynhwysiant grwpiau hyglwyf.

³¹ O dan delerau Penderfyniad Comisiwn 20 Rhagfyr 2011 ar gymhwyso Erthygl 106(2) Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth Gwladwriaethol ar ffurf digollediad gwasanaeth cyhoeddus a roddir i fentrau penodol yr ymddiriedir ynddynt i weithredu'r gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol (2012/21/EU)

4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol (parhad)

Mae'n rhaid bodloni amodau penodol er mwyn i'r gwaharddiadau hyn fod yn gymwys, fel a ganlyn:

- (a) ni all y contract am y gwasanaethau fod am fwy na 10 mlynedd, oni bai fod angen buddsoddiad sylweddol gan ddarparwr y gwasanaeth sydd angen ei amorteiddio am gyfnod hirach (yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol).
- (b) mae yna ofynion penodol ynglŷn â chynnwys y contract, o ran diffinio'r gwasanaethau, y mecanwaith talu a'r trefniadau i osgoi neu i adfachu unrhyw ordaliad.
- (c) ni ddylai'r taliad fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen i dalu am ddarparu'r gwasanaethau, yn cynnwys elw rhesymol, ac ni ddylid ei ddefnyddio tug at ddarparu unrhyw wasanaeth ar wahân i SGEI.
- (d) mae'n rhaid i'r derbynydd ymrwymo i ad-dalu unrhyw or-ddigolledu a dderbynir, a bydd yn rhaid gwirio bob tair blynedd i sicrhau nad oes dim gor-ddigolledu.

Felly mae'n ddoeth sicrhau bod unrhyw gontract neu grant mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol yn bodloni'r amodau hyn, er mwyn cael budd o'r esemptiad.

4.3 Beth yw Cymorth Gwladwriaethol?

O dan Erthygl 107(1) y Cytuniad, cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw 'gymorth a roddir gan Aelod-Wladwriaeth neu drwy adnoddau Gwladwriaeth mewn unrhyw ffordd bynnag sy'n ystumio neu'n bygwth ystumio cystadleuaeth drwy ffafrio mentrau penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol...i'r graddau ei fod yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau.'

Mae cymorth Gwladwriaethol yn anghyfreithlon oni bai ei fod:

- yn berthnasol i un o'r gwaharddiadau cyfyngedig iawn yn Erthygl 107;
- yn perthyn i gwmpas esemptiad grŵp neu 'floc' (megis yr esemptiadau ar gyfer SGEI a drafodwyd yn adran 4.2); neu
- fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cael ei hysbysu ymlaen llaw ac wedi ei awdurdodi.

Mae'r rheolau ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol yn haen ychwanegol o reoliadau. Hyd yn oed os caniateir cymorth penodol dan reolau cymorth Gwladwriaethol, nid yw hyn yn esgusodi'r corff cyhoeddus sy'n gwarantu'r cymorth rhag cydymffurfio ag unrhyw reolau cymwys eraill, megis y rhai ynglŷn â chaffael cyhoeddus.

Gall cymorth Gwladwriaethol fod mewn unrhyw ffurf. Yn bennaf, mae'n talu am grantiau a chymorthdaliadau eraill, ond mae hefyd yn talu am drafodion eraill pan fo'r derbynydd yn cael gwell bargaen nag a fyddai wedi'i chael yn y farchnad agored - er enghraifft, corff cyhoeddus yn prynu gwasanaethau ar delerau mwy ffafriol na'r rhai a gynigir gan gwsmeriaid yn y sector preifat.

Er mwyn cael cymorth Gwladwriaethol, mae'n rhaid bodloni'r holl feini prawf a nodir yn Erthygl 107(1) y Cytuniad, sef:

(a) darperir y cymorth drwy adnoddau Gwladwriaethol

Mae hyn yn cynnwys adnoddau awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac arian llywodraeth Ewrop. Mae hefyd yn cynnwys arian a ddosberthir gan gorff nad yw'n gyhoeddus os tarddodd yr arian hwnnw o'r Wladwriaeth - e.e. dosbarthu arian grant gan fudiad trydydd sector.

4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol (parhad)

(b) mae'r cymorth yn ddetholus yn ei hanfod oherwydd ei fod yn ffafrio mentrau penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol

Mae cymorth yn ddetholus os mai i fentrau penodol yn unig y mae ar gael, neu i fentrau mewn sector penodol o'r farchnad.

Yn y cyd-destun hwn, mae 'menter' yn golygu endid sy'n cynnal gweithgareddau economaidd mewn amgylchedd marchnad. Os yw'r derbynydd yn darparu nwyddau neu wasanaethau y gellid eu cynnig yn fasnachol mewn marchnad benodol, yna bydd yn cael ei ystyried fel menter, hyd yn oed os yw'n darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny'n ddielw. Felly, mae hyd yn oed cyrff gwirfoddol a dielw yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, megis elusennau, yn cael eu hystyried fel 'menter' mewn perthynas â'r rheolau ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol os ydynt yn cynnal gweithgareddau economaidd y mae marchnad yn bodoli ar eu cyfer yn y DG.

(c) mae'r cymorth yn ffafrio'r derbynydd

Bodlonir y gofyniad hwn os bydd y cymorth yn rhoi mantais economaidd i'r derbynydd na fyddai wedi ei chael dan amodau marchnad arferol. Mae'r gofyniad hwn wedi esgor ar y 'prawf buddsoddwr preifat' (a elwir hefyd yn 'egwyddor buddsoddwr economi marchnad' neu 'MEIP'). Mae'r prawf yn cynnwys cymharu ymddygiad y Wladwriaeth â'r ymddygiad fyddai'n ddisgwyliedig gan fuddsoddwr preifat dan yr un amgylchiadau. Felly mae'n asesiad o a yw'r telerau a atodir i'r cymorth yn fwy hael na'r rhai fyddai'r derbynydd yn eu cael dan delerau masnachol hyd braich yn y farchnad. Efallai na fyddai'r cymorth dan sylw ar gael yn y farchnad dan unrhyw delerau, neu dan rai llai ffafriol yn unig

Yn gyffredinol, os bodlonir y prawf MEIP, ni fydd cymorth Gwladwriaethol yn cael ei roi. Fodd bynnag, yng nghyd-destun taliadau am wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hystyried fel Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol, yn hytrach na chymhwyso'r prawf MEIP bydd angen ymgynghori â'r rheolau arbennig mewn perthynas â SGEI (gweler paragraff 4.2 uchod).

(d) mae'r ariannu'n ystumio neu'n bygwth ystumio cystadleuaeth ac yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau

Mae'r trothwy yn un isel iawn ar gyfer penderfynu a yw'r cymorth yn ystumio neu'n bygwth ystumio cystadleuaeth. Yn ei hanfod, os bydd menter yn derbyn budd cymorth, trwy ddiffiniad bydd mentrau eraill sy'n gweithredu yn yr un farchnad dan anfantaes o'i gymharu.

Mae p'un a yw'r ariannu'n effeithio ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau yn fwy perthnasol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gofyn a yw'r cymorth yn effeithio ar farchnad ble ceir masnach rhwng Aelod-Wladwriaethau. Mae p'un a yw derbynydd y cymorth yn masnachu mewn Aelod-Wladwriaethau eraill neu beidio yn amherthnasol. Eto, mae'r trothwy yn un isel iawn wrth benderfynu a fodlonwyd y gofyniad hwn. Dim ond pan fo'r cymorth yn arbennig o leol yn ei natur ac mewn sector ble ceir ychydig o fasnach rhyng-Gymuned, y mae'n bosibl dadlau na effeithir o gwbl ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym mharagraff 4.4(a) isod.

4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol (parhad)

4.4 Rhesymau eraill sy'n golygu nad fyddai caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cynnwys cymorth Gwladwriaethol neu'n cael ei esemptio rhag hysbysu dan reolau cymorth Gwladwriaethol

(a) mae natur y gwasanaethau yn hollol leol

Os yw natur y gwasanaethau yn hollol leol, yna ni allant effeithio ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau, ac felly ni roddir cymorth Gwladwriaethol. Un enghraifft o'r Comisiwn Ewropeaidd yn casglu bod natur gwasanaethau yn hollol leol oedd mewn perthynas â gwasanaethau ysbyty lleol a anelwyd yn unig at y boblogaeth leol. Fodd bynnag, petai cystadleuwyr ym marchnad gwasanaethau o'r math sydd dan sylw yn tueddu i fasnachu'r drawsffiniol, byddai hyn yn awgrymu nad yw natur y gwasanaethau'n hollol leol.

(b) nid yw'r gwasanaethau'n 'weithgaredd economaidd'

Os nad oes yna farchnad gystadleuol ar gyfer y gwasanaethau dan sylw, ni fydd darparu'r gwasanaethau hynny yn weithgaredd economaidd ac ni fydd cymorth Gwladwriaethol yn cael ei roi. Enghraifft o weithgaredd nad yw'n economaidd a roir gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yw gwasanaeth sy'n cael ei fonopoleiddio gan gorff gwladwriaethol neu elusen ac sy'n cael ei gynnal yn anfasnachol fel gweithgaredd y wladwriaeth. Fodd bynnag, oherwydd bod y sector gofal cymdeithasol yn dameidiog iawn, ac yn gystadleuol iawn, mae'n anodd iawn meddwl am enghraifft o wasanaethau gofal cymdeithasol nad ydynt

yn destun cystadleuaeth, ac nad ydynt felly'n weithgareddau economaidd.

Hyd yn oed os nad yw'r gwasanaethau dan sylw yn weithgareddau economaidd, os yw'r derbynydd hefyd yn ymwneud â gweithgareddau economaidd, bydd angen gofal i sicrhau na fydd unrhyw arian cyhoeddus a dderbynir ar gyfer y gweithgareddau di-economaidd yn gallu cael ei ddefnyddio er budd y gweithgareddau economaidd.

4.5 Sut mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn gymwys i fudiadau'r trydydd sector?

Gall materion ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol effeithio ar fudiadau'r trydydd sector mewn un o dair ffordd:

- gall y bydd arian cyhoeddus ar ffurf grantiau a roir i fudiad trydydd sector yn ffurfio Cymorth Gwladwriaethol os caiff yr arian hwnnw ei ddarparu neu ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau masnachol; a/neu
- arian cyhoeddus ar ffurf taliadau sy'n uwch na rhai masnachol/y farchnad dan gontractau i ddarparu gwasanaethau; a/neu
- efallai bod mudiad trydydd sector ei hun yn gorff sy'n rhoi cymorth Gwladwriaethol, er enghraifft, dosbarthu arian cyhoeddus neu wrth ddefnyddio arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn y farchnad yn rhatach na phrisiau masnachol/y farchnad. Yn hyn o beth, ceir esemptiad (yn erthygl 107(2) ar gyfer cymorth a roddir i unigolion sydd ag iddo gymeriad cymdeithasol, ond mae yna feini prawf i'w bodloni a gofyniad i hysbysu am y cymorth ymlaen llaw fel y gall y Comisiwn gadarnhau bod y cymorth mewn gwirionedd yn destun i'r esemptiad.

4. Rheolau Cymorth Gwladwriaethol (parhad)

4.6 Canlyniadau Cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw ymrwymiad i orchymyn adennill unrhyw gymorth anghyfreithlon y canfyddir ei fod yn anghydnaws â'r farchnad gyffredin. Mae'n ofynnol i'r derbynydd orfod ad-dalu'r cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon gyda llog. Bydd y grym i orchymyn adennill yn destun gwaharddiad amser 10 mlynedd ar ôl i'r cymorth gael ei roi.

Gall y corff cyhoeddus sy'n rhoi'r cymorth a'r derbynydd wynebu hawliadau am iawndal gan gystadleuwyr anfodlon sy'n hawlio y buont dan anfantais o ganlyniad i roi'r cymorth neu unrhyw fethiant i hysbysu am y cymorth a chadw at y cyfnod segur.

Yn amlwg, gall unrhyw risg o orfod ad-dalu cymorth fod yn destun pryder mawr i dderbynydd y cymorth. Mae hynny hefyd yn bryder i'r corff cyhoeddus sy'n darparu'r cymorth oherwydd y niwed gwleidyddol a'r niwed i enw da all ddigwydd os canfyddir fod y cymorth yn anghyfreithlon.

Mae'n arferiad cyffredin i gyrff cyhoeddus gynnwys darpariaeth yn nogfennaeth y cymorth sy'n eu galluogi i adfachu'r cymorth os canfyddir ei fod yn ffurfio cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon. Mae cael darpariaeth mewn contract y gellir dibynnu arni er mwyn gorfodi adennill yn llawer haws na gorfod cymhwyso'r rheolau cymorth Gwladwriaethol yn uniongyrchol.

Mewn achosion pan fo cytuno ar ddogfennau'r cymorth ymlaen llaw ond bod angen hysbysu am y cymorth, dylai'r partïon ystyried cynnwys rhag-amod yn y ddogfennaeth i sicrhau bod rhoi'r cymorth yn amodol ar y Comisiwn yn ei awdurdodi'n gyntaf.

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol

5.1 Cyflwyniad

Ym mharagraffau 5.2 i 5.5 isod rydym yn edrych ar gyfrifoldebau am ofal cymdeithasol yn y cyfansoddiad datganoledig, y gyfraith mewn perthynas â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yn cynnwys y ddyletswydd i wella'n barhaus ('gwerth gorau'), gofynion gweithdrefnol perthnasol mewn perthynas â chontractau, pwerau a dyletswydd statudol awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a rheolaeth ddeddfwriaethol awdurdodau cyhoeddus gyda chyfeiriad arbennig at ofal cymdeithasol.

5.2 Cyd-destun datganoli

Er 2011 mae pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnwys pwerau i ddeddfu'n gyffredinol drwy Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â strwythur, pwerau a dyletswyddau a chyllid awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad Cenedlaethol rhwng 2007 a 2011 roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i greu deddfwriaeth sylfaenol a roddwyd iddo gan gyfuniad o ddarpariaethau yn neddfwriaeth sylfaenol San Steffan a gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol. Crëwyd peth deddfwriaeth

llywodraeth leol i Gymru yn unig (a elwir yn 'Fesurau') o dan y darpariaethau hyn.

Erbyn hyn mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau deddfwriaethol mewn perthynas â lles cymdeithasol yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus, sy'n ddarostyngedig i eithriadau penodol mewn perthynas â gorgyffwrdd â nawdd cymdeithasol a rhai gwsanaethau plant.³²

Er bod nifer o'r statudau sylfaenol mewn perthynas â llywodraeth leol a gofal cymdeithasol yn Ddeddfau Llywodraeth San Steffan sy'n hŷn na phwerau deddfwriaethol presennol Cynullid Cenedlaethol Cymru, er enghraifft Deddf Llywodraeth Leol 1972, erbyn hyn gellir diddymu neu addasu'r rhain drwy Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn dilyn deddfu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'n gonfensiwn cyfansoddiadol sefydledig na fydd San Steffan yn deddfu ar fater pan fo'r cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heb ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.³³ Enghraifft o hyn yng nghyd-destun caffael yw Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 sy'n gofyn i awdurdodau cyhoeddus penodol ystyried sut, yng nghyd-destun caffael gwasanaethau, y gellir gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Fodd bynnag, ni ofynnwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydsynio ag ymestyn y

³² Gweler Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, rhan 1 para. 15:

15. Lles Cymdeithasol

Lles Cymdeithasol yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Amddiffyn a lles plant (yn cynnwys mabwysiadu a maethu) [a phobl ifanc] 1 Gofal [plant'] 2 pobl ifanc, pobl hyglwyf a phobl hŷn, yn cynnwys safonau gofal. Bathodynau i'w dangos ar gerbydau a ddefnyddir gan bobl anabl.

Eithriadau -

Cynnal Plant

Cronfeydd ymddiriedolaeth plant, ar wahân i danysgrifio i gronfeydd o'r fath gan-(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref yng Nghymru, neu (b) Gweinidogion Cymru.

Credydau treth.

Budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad.

Nawdd cymdeithasol.

[Cronfeydd Byw'n Annibynnol.

Motability.

Mabwysiadu trawswladol, ar wahân i asiantaethau mabwysiadu a'i gweithrediadau, a gweithrediadau'r 'Awdurdod Canolog' o dan Gonfensiwn Yr Hag ar Amddiffyn Plant a chydweithio mewn perthynas â Mabwysiadu Trawswladol.

Y Comisiynydd Plant (sefydlwyd dan Ddeddf Plant 2004 (c.31)).

Cyfraith ac achosion teulu, ar wahân i- (a) cyngor ar les mewn llys, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i blant sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru a'u teuluoedd, a (b) swyddogion achosion teulu Cymreig.

³³ A roir drwy gyfrwng Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol (parhad)

ddyletswydd hon i sefydliadau datganoledig. Yn unol â hyn, mae'r Ddeddf yn nodi'n eglur nad yw'n ymestyn i sefydliadau datganoledig yng Nghymru.³⁴

5.3 Pwerau a dyletswyddau Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol yn gyrff gaiff eu creu gan statud. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt unrhyw ffynhonnell awdurdod annibynnol i weithredu ac eithrio'r rhai a roddwyd iddynt gan y ddeddfwrfa. Mae'n rhaid defnyddio pwerau a chyflawni dyletswyddau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Hefyd, mae'r Llysoedd wedi datblygu corff o gyfraith weinyddol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn modd sy'n weithdrefnol deg ac yn gymesur.

Mae cyrff cyhoeddus a'r Llysoedd hefyd wedi eu hymrwymo i amddiffyn hawliau a rhyddid sylfaenol sydd erbyn hyn yn rhan o gyfraith y DG drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau i fywyd teuluol, i beidio gorfod dioddef gwahaniaethu a'r hawl i beidio colli eiddo ac eithrio pan fo hynny er budd cyhoeddus dan y drefn briodol yn cynnwys hawliau i iawndal.

Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru bwerau cyffredinol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000³⁵ i wneud unrhyw beth a welir fydd yn datblygu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd. Er bod y pwerau hyn yn eang, nid ydynt heb gyfyngiadau. Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdod lleol fod yn fodlon bod cynnig o fudd i'w ardal, ac ni all ddefnyddio'r pwerau hyn ar gyfer rhywbeth fyddai o fudd i lywodraeth leol yn gyffredinol oni bai fod yna fudd amlwg i'w ardal ei hun.

Yn yr un modd, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu nad yw buddion ariannol yr awdurdodau lleol yn ffurfio lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn yr ystyr a geir yn Neddf 2000.³⁶

Mae'n werth nodi'n y cyd-destun hwn bod pwerau Deddf 2000 wedi cael eu diddymu yn Lloegr gan Ddeddf Lleoliaeth 2010 ac yn eu lle ceir 'pŵer cyffredinol cymhwysedd' i wneud unrhyw beth y gall person naturiol ei wneud yn gyfreithlon yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau neu amodau statudol penodol.

Hefyd, pan fo swyddogaeth yn cael ei roi i awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu i'r awdurdodau hynny allu gwneud unrhyw beth a 'welir fydd yn hwyluso gollwng unrhyw un o'u swyddogaethau, neu sy'n ffafrio hynny neu'n gysylltiedig â hynny'. Mae'r pŵer hwn, er ei fod yn ymddangos yn un eang, wedi cael ei ddehongli'n gyfyngedig gan y Llysoedd.³⁷

Dros y blynyddoedd mae awdurdodau lleol hefyd wedi bod yn destun amrywiol fentrau gwella gan y llywodraeth ganolog. Ym 1980 bu i ddeddfwriaeth gyflwyno tendro cystadleuol gorfodol ('CCT') ar gyfer gweithgareddau penodol llywodraeth leol. Ar y cychwyn anelwyd hyn at swyddogaethau megis sefydliadau llafur uniongyrchol, yna ymestynnwyd ei gwmpas yn gynyddol. Roedd Llywodraeth y DG a etholwyd ym 1997 yn ymrwymedig i gyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gael y 'gwerth gorau' a diddymwyd CCT yn 2000. Bwriad gwerth gorau oedd canolbwyntio nid yn unig ar effeithiolrwydd ac economi gwasanaethau llywodraeth leol ond hefyd ar effeithiolrwydd a safon gwasanaethau.

Mae'r dulliau yng Nghymru a Lloegr o ymdrin â gwerth gorau wedi bod yn gynyddol wahanol. Yn 2005 gollyngwyd y term gan Lywodraeth

³⁴ Wedi'u diffinio fel Gweinidogion Cymru, Prif weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac 'awdurdod perthnasol y mae ei holl weithrediadau neu ei weithrediadau'n bennaf yn weithrediadau datganoledig Cymreig', fydd yn cwmpasu awdurdodau lleol Cymru.

³⁵ Gweler aau. 2 a 3.

³⁶ Gweler R (*Risk Management Partners Ltd*) v Brent London Borough Council [2009] EWCA Civ 490 – roedd yr achos yn destun apelïadau pellach i'r Goruchaf Lys, ond nid mewn perthynas â dehongli pwerau 'lles'.

³⁷ Gweler a. 111

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol (parhad)

Cymru pan fabwysiadodd 'Raglen Cymru ar Gyfer Gwella' yn 2005. Yna cafodd hyn ei atgyfnerthu gan ddeddfwriaeth ar ffurf Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Yn fras, mae Mesur 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol unedol Cymru i osod amcanion blynyddol i wella sut mae swyddogaethau'n cael eu cyflawni. Mae'n rhaid fframio pob un o'r amcanion gwella i wella sut mae swyddogaethau'n cael eu cyflawni yn nhermau o leiaf un o'r saith elfen canlynol:

- (a) effeithiolrwydd strategol: fydd yn cael ei wella wrth i awdurdod gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n rhesymol debygol o arwain at gyrraedd, neu at helpu i gyrraedd, unrhyw un o'i amcanion strategol;
- (b) safon gwasanaethau: fydd yn cael ei wella os bydd gwelliant mewn safon gwasanaethau;
- (c) argaeledd gwasanaethau: fydd yn cael ei wella os bydd gwelliant mewn argaeledd gwasanaethau;
- (d) tegwch: fydd yn cael ei wella os bydd lleihad yn yr anfanteision y mae rhai pobl yn y gymuned yn ei brofi wrth geisio cael mynediad i wasanaethau neu wrth geisio cymryd mantais lawn o wasanaethau, neu fod lles cymdeithasol yn cael ei wella o ganlyniad i'r modd y darperir y gwasanaethau neu'r modd y caiff swyddogaethau eu cyflawni;
- (e) cynaliadwyedd: fydd yn cael ei wella os bydd cyflawni swyddogaeth neu ddarparu gwasanaethau yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy yn ardal yr awdurdod;
- (f) effeithlonrwydd: fydd yn cael ei wella drwy wella effeithlonrwydd defnyddio adnoddau; ac
- (g) arloesedd: fydd yn cael ei wireddu os newidir y modd y caiff gwasanaethau eu darparu neu

swyddogaethau eu cyflawni mewn modd sy'n rhesymol debygol o arwain at unrhyw un o'r canlyniadau uchod.

Mae amcanion strategol awdurdod lleol yn cael eu gosod yn ei strategaeth gymunedol, sydd erbyn hyn yn cael eu hymgorffori i Gynllun Integredig Sengl gan bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Nghymru.

Dyma nodweddion eraill y system wella:

- (a) dyletswydd i ymgynghori â phreswylwyr, trethdalwyr annomestig, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau ac unrhyw randdeiliaid eraill fydd â budd yng ngolwg yr awdurdod.
- (b) dyletswydd i ystyried arweiniad gan Weinidogion Cymru.
- (c) pŵer Gweinidogion Cymru i restru dangosyddion perfformiad.
- (d) dyletswydd ar awdurdodau lleol i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill pan fo awdurdod lleol yn dod i'r casgliad y bydd hynny'n ei gynorthwyo i gyrraedd ei amcanion gwella.
- (e) gofynion i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ac i gyhoeddi cynllun gwella ar gyfer y blynyddoedd dilynol.
- (f) trefniadau ar gyfer archwiliadau gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, arolygiaeth iechyd a gofal cymdeithasol ac archwilwyr statudol yr awdurdod ei hun.

Dylid nodi bod pwerau cydweithio yn cynnwys nid yn unig cydweithio ag awdurdodau lleol eraill ond hefyd unrhyw berson neu gyflogion y person hwnnw, a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i gyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol dan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, er nad oes gorchmynion

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol (parhad)

o'r fath wedi cael eu rhoi hyd yma gan Weinidogion Cymru.

Mae'r pwysau a roir ar awdurdodau lleol gan y system wella yn sbardun pwysig i awdurdodau lleol ystyried rhoi gwasanaethau mewn meysydd megis gofal cymdeithasol i gontractau allanol.

Yn ychwanegol at y pwerau a'r dyletswyddau statudol cyffredinol a amlinellir uchod, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru swyddogaethau a dyletswyddau penodol, mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol.

Y brif ddarpariaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau llety a lles gan awdurdodau yw Deddf Cymorth Gwladol 1948 fel y'i diwygiwyd gan Ran III Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990.

Mae gan awdurdodau unedol Cymru yn eu rhinwedd fel awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol bwerau a dyletswyddau mewn perthynas â darparu llety preswyl i bobl sy'n hŷn na 18 oed (sydd fel arfer yn preswyl yn eu hardal neu mewn angen brys) y mae arnynt angen, oherwydd oedran, salwch neu anabledd neu amgylchiadau eraill, gofal a sylw na fyddai ar gael iddynt ac eithrio drwy ddarparu llety preswyl dan y pŵer penodol hwn. Gall yr awdurdod lleol ei hun ddarparu llety neu wneud trefniadau eraill gyda mudiadau gwirfoddol, y sector preifat neu awdurdod lleol arall.

Gall awdurdodau lleol hefyd ddarparu gwasanaethau cartref a gall gyflogi mudiadau gwirfoddol a darparwyr o'r sector preifat fel eu hasiantau o ran darparu gwasanaethau lles, dan bwerau sy'n bodoli yn Neddf Cymorth Gwladol 1948. Hefyd, mae Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau i drefnu darparu gwasanaethau i bobl anabl.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i baratoi cynllun, ac i ymgynghori arno, i ddarparu gwasanaethau gofal yn y gymuned yn eu hardal dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd i asesu anghenion pobl y mae'n ymddangos i'r awdurdod bod arnynt angen gwasanaethau gofal yn y gymuned. Mae yna gorff sylweddol o gyfraith achosion ar gynnal asesiadau anghenion ac ar i ba raddau y gall yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol bennu lefel y cymorth a ddarperir.

5.4 Gofynion gweithdrefnol mewn perthynas â chontractau

Pan fo awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau neu'n rhoi swyddogaethau i gontractau allanol, bydd y contractau â'r gwerth mwyaf yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus. Am fwy o wybodaeth am y rheolau caffael cyhoeddus gweler paragraffau 3.1 i 3.5 uchod. Fodd bynnag, pan fo gwerth contractau yn disgyn yn is na'r gwerthoedd trothwy dan y rheolau caffael cyhoeddus ac yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag 'egwyddorion cyffredinol y Cytuniad' a ddisgrifir ym mharagraff 3.1 uchod, mae'n fater i'r awdurdod lleol restru ei weithdrefnau caffael ei hun.

Mae yna ofyniad deddfwriaethol i bob awdurdod lleol gynnal a chyhoeddi cyfansoddiad ac i sicrhau ei fod ar gael ar wefan yr awdurdod. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi modelau rhagnodedig o gyfansoddiadau awdurdodau lleol. Bydd cyfansoddiadau hefyd yn cynnwys y rheolau sefydlog mewn perthynas â chontractau y mae gofyn i awdurdodau eu mabwysiadu dan adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol (parhad)

Gall rheolau sefydlog contractau fod yn wahanol o un awdurdod i'r llall ond yn gyffredinol byddant yn rhagnodi lefelau uwch o ffurfioldeb wrth i werthoedd contractau godi. Byddant hefyd yn ymdrin â materion gweithdrefnol megis cyflenwi ac agor tendrau.

Wrth baratoi i gymryd rhan mewn proses gaffael na chaiff ei chynnal dan ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus, mae hi bob amser yn ddoeth gwirio beth yw rheolau sefydlog contractau'r awdurdod lleol.

5.5 Rheolaeth farnwrol

Fel unrhyw gorff arall sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i egwyddorion cyffredinol cyfraith weinyddol wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'n bwysig deall bod cyfraith weinyddol yn ymwneud â'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud ac nid â theilyngdod penderfyniad gaiff ei herio. Cyn belled â bod penderfyniad yn cael ei wneud mewn modd gweithdrefnol cyfreithlon, ni fydd y Llysoedd yn ymyrryd â chasgliadau'r penderfynwr.

Mae penderfyniad cyfreithlon yn un:

- (a) sydd o fewn ffiniau'r pwerau a ddefnyddir neu sy'n cyflawni dyletswydd gyfreithiol a roddwyd ar y penderfynwr.
- (b) nad yw'n afresymegol, yn yr ystyr nad yw'n benderfyniad na fyddai'r penderfynwr wedi'i wneud wrth ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol. Mae'r rhicyn wedi'i osod yn fwriadol uchel ar gyfer penderfynu bod penderfyniad yn un afresymegol, neu fel arall gallai diddymu penderfyniad ar y sail hon ddod yn fath o adolygiad barnwrol o deilyngdod penderfyniad.

(c) sy'n weithdrefnol deg. Mae tegwch yn cynnwys ystod o ystyriaethau, er enghraifft:

- (i) gwrandao ar ddwy ochr y ddadl,
- (ii) peidio â chymhwyso polisi mewn dull blanced fyddai'n golygu na fyddai'r penderfynwr yn ystyried amgylchiadau newydd neu eithriadol,
- (iii) peidio â dibynnu ar neu ystyried ystyriaethau amherthnasol, a
- (iv) sicrhau bod ymgynghori'n cael ei gynnal mewn modd sy'n golygu bod cynigion yn cael eu deall ac y gellir rhoi sylwadau arnynt yn synhwyrol.

Mae penderfyniadau gweinyddol yn ddarostyngedig i drosolwg barnwrol drwy achosion adolygiad barnwrol. Mae adolygiad barnwrol ar gael yn unig mewn achosion sy'n seiliedig ar gyfraith gyhoeddus ac mae gan y weithdrefn nifer o nodweddion unigryw:

- (a) mae'n rhaid i'r her fod yn gysylltiedig â gweithred neu benderfyniad penodol, megis asesiad o anghenion yr unigolyn, neu benderfyniad i fabwysiadu cynllun neu bolisi.
- (b) mae yna derfyn amser ar gyfer dwyn hawliad, sef, ar hyn o bryd, cyn gynted ag y mae'n ymarferol yn dilyn y penderfyniad neu'r gweithredu, ac o fewn tri mis ym mhob achos.
- (c) ar y cychwyn caiff yr hawliad ei adolygu gan farnwr sy'n gorfod penderfynu caniatáu i'r hawliad fynd yn ei flaen neu beidio. Y prawf yw a yw'r cymhwysiad yn datgelu achos y gellir ei ddadlau.
- (d) ymdrinnir ag achosion adolygiad barnwrol ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig a dadl lafar, ac anaml y cyflwynir tystiolaeth.

5. Ystyriaethau Cyfraith Gyhoeddus a Gweinyddol (parhad)

- (e) gall y Llys roi un o nifer o orchmynion sy'n benodol at ddiben achosion gweinyddol:
- (i) gorchymyn diddymu sy'n gwrthdroi'r penderfyniad y bu cwyn amdano. Dylid nodi mai canlyniad gorchymyn o'r fath yw rhoi'r penderfynwr mewn sefyllfa ble mae'n rhaid iddo wneud y penderfyniad eto. Mewn achosion o'r fath pan fo'r penderfyniad yn cael ei wneud eto er bod nam gweithdrefnol y penderfyniad gwreiddiol wedi cael ei gywiro, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad yn dal yr un fath ar deilyngdod.
 - (ii) gorchymyn yn gwahardd awdurdod lleol rhag gweithredu y tu hwnt i'w bwerau.
 - (iii) gorchymyn gorfodol i orfodi awdurdod cyhoeddus i gyflawni'r dyletswyddau a roddwyd arno. Erbyn heddiw mae dyletswyddau o'r fath yn deillio o ddeddfwriaeth.
 - (iv) datganiad sy'n nodi'r sefyllfa gyfreithiol, gan adael i'r partïon weithredu wedi hynny yn unol â'i delerau.

Mewn achosion priodol gall cyrff cyhoeddus fod yn atebol i dalu iawndal am dorri dyletswydd statudol neu fod yn destun gwaharddeb i wahardd gweithred anghyfreithlon. Gellir ymgeisio am y rhain drwy achos arferol, sy'n golygu osgoi cam 'hidlo' y broses adolygiad barnwrol, er bod yna berygl i achosion arferol yn erbyn cyrff cyhoeddus gael eu gwrthod ar y sail eu bod yn ymwneud â materion cyfraith gyhoeddus ac y dylid eu dwyn drwy achos am adolygiad barnwrol.

6. Ffactorau y dylai eu hystyried wrth benderfynu p'un ai i ddefnyddio grantiau neu gcontractau

Wrth benderfynu p'un ai i ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy grantiau neu gcontractau, bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried ystod o wahanol ffactorau: deddfwriaethol (yn cynnwys pwerau ('firau'), gwerth gorau, rheolau cymorth Gwladwriaethol, Rheolau Caffael Cyhoeddus); polisi (mewnol, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; gofynion mewnol (rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog); a'u hamcanion.

Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol³⁸, gellir defnyddio grantiau fel mecanwaith ariannu os bodlonir y tri rhag-amod yma:

1. pŵer cyfreithiol: mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus gael y pŵer cyfreithiol i roi grant at y pwrpas dan sylw;
2. cymorth Gwladwriaethol: mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus fod yn fodlon na fydd y grant y mae'n dymuno ei roi yn gymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon; a'r
3. math 'cywir' o arian: mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus fod yn fodlon fod yr arian y mae'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer y grant yn arian o'r math 'cywir' ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.

Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol³⁹, gall corff cyhoeddus ddefnyddio proses gaffael (yng nghyd-destun y canllawiau hyn, contractau) pan:

1. fo'n contractio allan un o swyddogaethau'r corff cyhoeddus; a
2. bod ganddo'r arian mewn bloc priodol sy'n gymharol â'r gwasanaeth y mae'n bwriadu ei brynu.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymwybodol y gall sefyllfaoedd godi pan fo corff cyhoeddus yn bodloni'r rheolau parthed defnyddio grantiau a'r rhai hynny parthed defnyddio proses gaffael/contractau. Mewn achosion o'r fath, mae angen i gyrff cyhoeddus 'benderfynu pa un sydd fwyaf addas i'w rhaglen, gwasanaeth neu'r canlyniad y bwriedir ei gael'.⁴⁰

Yn ôl Trysorlys EM:

'Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng caffael a grantiau ac wedyn cymhwyso'r gweithdrefnau priodol. Dylid seilio'r penderfyniad ynglŷn â pha ffrwd ariannu i'w defnyddio ar gyfuniad o ffactorau yn cynnwys:

- pa lefel o reolaeth sy'n briodol;
- cyflwr y farchnad; a
- penodoldeb y canlyniadau y mae'r ariannwr yn bwriadu eu cael a'r dangosyddion sydd ar gael i fesur y canlyniadau hynny'n feintiol ac ansoddol.

Yn gyffredinol fodd bynnag, prif benderfynydd natur y berthynas ariannol yw natur y canlyniadau y bwriedir eu cael. Pan fo'r canlyniadau y bwriedir eu cael yn gymharol fanwl, a bod dangosyddion ar gael i werthuso ansawdd a maint y canlyniadau hynny, mae'n debygol mai proses gaffael sy'n agored i gystadleuaeth ac sy'n arwain at berthynas fasnachu gonfensiynol fydd y dewis mwyaf priodol... Mae grantiau...ar y llaw arall...yn fwy tebygol o fod yn addas ar gyfer cefnogi mudiadau yn y trydydd sector sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gydnaws ag amcanion

³⁸ Pecyn cymorth - pryd allaf i ddefnyddio grant?

³⁹ Pecyn cymorth - pryd allaf i ddefnyddio proses gaffael?

⁴⁰ www.nao.org.uk/sectors/third_sector/successful_commissioning/successful_commissioning/sourcing_providers/grant_or_procurement.aspx

6. Ffactorau y dylai eu hystyried wrth benderfynu p'un ai i ddefnyddio grantiau neu gontractau (parhad)

ehangach y Llywodraeth ac mae'r Llywodraeth yn gweld gwerth ynddynt...⁴¹

Mae'n ymddangos bod hyn yn ymdrin â'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng grantiau a chontractau: defnyddir grantiau i gefnogi sefydliad sy'n gweithredu'n gyffredinol neu'n lled gydnaws â pholisïau ac amcanion y corff cyhoeddus; mae contractau yn golygu bod yna ofyniadau cyfreithiol i sefydliad gyflenwi gwasanaethau sydd eu hangen ar y corff cyhoeddus yn gyfnewid am dâl. Os bydd y corff cyhoeddus angen i dderbynnydd yr arian fod wedi'i ymrwymo'n gyfreithiol i gyflenwi'r gwasanaethau dan sylw, yna contract yn hytrach na grant fyddai'r mecanwaith ariannu mwyaf priodol.

⁴¹ Gwella cysylltiadau ariannol gyda'r trydydd sector: Canllawiau i gyllidwyr a phrynwyr Mai 2006, tudalen 18 paragraffau 2.19 - 2.22

7. Elusennau a gwasanaethau cyhoeddus - nodyn atgoffa

- 7.1 Mae'n bwysig bod pob mudiad yn y trydydd sector sy'n dymuno cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn ymgeisio i'w cyflenwi yn rhan o amcanion a phwrpas eu dogfen lywodraethol - p'un ai bod hyn yn weithred ymddiriedolaeth, erthyglau cymdeithasu cwmni, rheolau cymdeithas ddiwydiannol a darbodus neu gyfansoddiad mudiad elusennol corfforedig.
- 7.2 Mae'n rhaid i fudiadau sy'n elusennau weithredu'n unol â'u hamcanion elusennol er budd y cyhoedd. Ni ddylid ystyried bod hyn yn gyfystyr â darparu gwasanaethau cyhoeddus.
- 7.3 Felly, cyn penderfynu ymgeisio am gontract i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig bod elusen yn ystyried yn ofalus, os bydd yn llwyddiannus, a yw'r gwasanaethau yn unol â'i hamcanion er budd y cyhoedd.
- 7.4 Ar y cychwyn dylid ymgynghori â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar 'Elusennau a Chyflenwi Gwasanaeth Cyhoeddus' (CC37)⁴² ac ar 'Annibyniaeth Elusennau ar y Wladwriaeth' (RR7)⁴³ ac os bydd angen mewn achosion o amheuaeth neu ansicrwydd dylid ceisio cyngor cyfreithiol.

⁴² <http://www.charity-commission.gov.uk/Publications/cc37.aspx#h1>

⁴³ <http://www.charity-commission.gov.uk/Publications/rr7.aspx>